# Ffasiwn i'r Dyfodol yng Nghymru

**Ein llwybr at ffasiwn gynaliadwy gan SCTC**

Dillad a Thecstilau Cynaliadwy Cymru

September 2022

## Cynnwys


Amdanom ni 1
Ynglŷn â’r adroddiad hwn 3
Argymhellion allweddol 5
Rôl newydd Cyfarwyddwr Ffasiwn a Thecstilau Cynaliadwy 6
Cynllun Gweithredu Microblastigau i Gymru 6
Cyflwyniad ledled y wlad o gynlluniau cyfnewid gwisgoedd ysgol a chitiau chwaraeon 6
Annog newid ymddygiad 7
Ffasiwn gyflym – beth yw'r broblem? 8
Allyriadau hinsawdd 8
Llygredd 8
Microblastigau 9
Defnydd 9
Ffasiwn anfoesegol 9
Beth yw'r sefyllfa yng Nghymru? 11
Y sector addysg 12
Cwricwlwm i Gymru – cyfleoedd 12
Ailgylchu gwisgoedd ysgol 14
Argymhellion 16
Y sector busnes 18
Y diwydiant ffasiwn gynaliadwy yng Nghymru 18
Pam ei bod mor bwysig cefnogi BBaChau? 19
Cyfeiriadau 24
Y sector cymunedol 25
Astudiaeth achos 1: Dillad Dwywaith 25
Astudiaeth achos 2: Repair Cafe Cymru 27
Astudiaeth achos 3: Gadael i Ni Chwarae 29
Astudiaeth achos 4: Y Rhaglen Respect 31
Astudiaeth achos 5: School Uniformcycle Caerffili 32
33
Argymhellion 33
Siopau elusen 35
Siopau elusen ac Addysg 36
Argymhellion 37
Microffibrau plastig 38
Ffynonellau gwybodaeth 39
Argymhellion gan grŵp seneddol y Deyrnas Unedig 40
Ein hargymhellion 41
Defnyddiau amgen 42
Gwlân 43
Cywarch 44
Crynodeb o argymhellion 49

## Amdanom ni

Mae Dillad a Thecstilau Cynaliadwy Cymru (SCTC) yn glymblaid o elusennau, busnesau lleol, darparwyr addysg ac unigolion angerddol. Ein cenhadaeth yw arddangos y gwaith gwych ac amrywiol sy'n gwneud ffasiwn a thecstilau yn fwy cynaliadwy yng Nghymru, ac ysbrydoli gwneuthurwyr newid i sicrhau bod y diwydiant hwn yn cael ei gefnogi'n well, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy o ran o’r brif ffrwd ledled y wlad.

Daeth SCTC ynghyd am y tro cyntaf yn 2020. Ein syniad cychwynnol oedd uno pobl yng Nghymru sy'n gweithio i wneud ffasiwn yn fwy cynaliadwy. Ychydig a wyddem am ddyfnder y gwaith oedd yn mynd rhagddo eisoes, a faint oedd yn mynd i gael ei gyflawni yn y misoedd dilynol.

Daethom â darparwyr addysg, unigolion, cyrff anllywodraethol a busnesau ynghyd – ac mae ein hymdrechion eisoes wedi dwyn ffrwyth! Cafodd myfyrwyr o Brifysgol De Cymru, er enghraifft, y cyfle i ddechrau prentisiaethau â thâl gyda’r busnes ffasiwn gynaliadwy Onesta, a enillodd y wobr am y Busnes Bach Cynaliadwy Gorau yng Ngwobrau Cynaliadwyedd Marie Clare 2021.

Gydag arbenigedd anhygoel Helen O'Sullivan o Ffasiwn Gynaliadwy Cymru, a Cadwch Gymru'n Daclus, mae deunydd addysgu ar y diwydiant tecstilau ar gael ar wasanaeth 'Hwb' Llywodraeth Cymru a Gwefan SustFashWales. Ochr yn ochr â hyn, mae Helen wedi bod yn gweithio ers blynyddoedd ar arwain ymgyrchoedd yn ymwneud â ffasiwn gynaliadwy. Mwyaf cofiadwy oedd 'troi y carped coch yn wyrdd' yn seremoni wobrwyo BAFTA Cymru yn 2019. Roedd enwogion fel Michael Sheen, Matthew Rhys, Ruth Jones a Jodie Whittaker yn cefnogi'r addewid.

Mae Repair Cafe Cymru wedi bod yn trefnu digwyddiadau dros dro ledled Cymru i addysgu pobl am sut i drwsio dillad yn lle eu taflu neu brynu mwy. Mae hyn yn rhoi sgiliau newydd gwerthfawr i bobl ac yn mynd i'r afael â'r meddylfryd o fod angen prynu rhywbeth newydd yn lle ei atgyweirio ar yr un pryd.

Yn ystod hydref 2021 cynhaliodd SCTC ymgyrch ymwybyddiaeth ar-lein o'r enw

Dydd Gwener Gwyrdd i dynnu sylw at fater prynwriaeth anghynaladwy ac yn enwedig sut mae'n berthnasol i'r diwydiant dillad a thecstilau.

Yn hydref 2021, daeth SustFashWales, Repair Cafe Cymru ac Onesta ynghyd ar gyfer Wythnos Ffasiwn Gynaliadwy a chynnal Y Bompren Werdd ac arddangosfa ffasiwn gynaliadwy, gan ddod ynghyd â brandiau cynaliadwy o bob rhan o Gymru i ddangos sut y gellir gwneud dillad yn fwy cynaliadwy.




Dim ond rhai o'n cyflawniadau hyd yn hyn yw'r rhain, a gobeithiwn gyda'r adroddiad hwn y bydd llawer mwy i ddod, wrth i bobl sylweddoli pa mor hawdd yw hi i fod yn fwy cynaliadwy o ran dillad, a hefyd y realiti llwm o ba mor ddrwg y gall ffasiwn a thecstilau fod i'n planed.

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

O ystyried yr argyfwng costau byw a’r argyfwng hinsawdd, rhaid inni archwilio’r hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru i sicrhau bod ffasiwn yn fwy fforddiadwy i bobl, ac nad yw’n costio’r Ddaear. Wedi’i anelu at benderfynwyr sy’n gweithio yng Nghymru, mae’r adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion i’n harwain ar ein taith tuag at ddyfodol o ffasiwn gynaliadwy.

**Amcanion allweddol**

Mae’r adroddiad hwn yn ceisio mynd i’r afael â’r ddau gwestiwn hyn:

1. Beth allwn ni ei wneud mewn gwirionedd yma yng Nghymru i wneud ffasiwn yn fwy cynaliadwy, gan ddefnyddio’r ysgogiadau sydd ar gael inni a heb aros i frandiau a manwerthwyr ffasiwn fyd-eang, na Llywodraeth y Deyrnas Unedig, weithredu?

2. Sut y gallwn uno’r holl sectorau ffasiwn a thecstilau gwahanol i lunio cynllun sydd nid yn unig yn dda ar gyfer helpu mynd i’r afael â’r problemau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â’r diwydiant hwn ond sydd hefyd yn llesol i deuluoedd, cymunedau a busnesau bach yng Nghymru?

Mae yna eisoes lawer o fusnesau bach gwych yng Nghymru sy'n ceisio tynnu sylw at fanteision ffasiwn gynaliadwy. Mae nifer o ddigwyddiadau a mentrau cymunedol ledled Cymru yn hyrwyddo cyfnewid dillad ac mae yna hefyd lawer o ymgyrchoedd gan gyrff anllywodraethol ac unigolion a llawer iawn o sylw yn y cyfryngau, y wasg a chyfryngau cymdeithasol i'r materion dan sylw.

Mae’r mentrau, y syniadau a’r digwyddiadau hyn yn arddangos creadigrwydd ac ymroddiad pobl ledled Cymru, ac yn dangos ffordd ymlaen i ni fel cenedl fach.

O ran syniadau ac arloesedd, mae gan Gymru y potensial i fod yn arweinydd byd mewn ffasiwn gynaliadwy.

Wrth gwrs, dylanwad cyfyngedig sydd gennym ar y diwydiant ffasiwn byd-eang, ac mae llawer o’r ymyriadau polisi a fyddai’n helpu i wneud gwahaniaeth yma yn rhai a gedwir yn San Steffan.

Mae'r adroddiad hwn yn coladu syniadau, profiad a gwybodaeth gan aelodau'r gynghrair ac eraill gyda briff penodol iawn o'r **hyn y gallwn ei wneud** yn gyflym yng Nghymru mewn gwirionedd ynghylch materion ffasiwn, dillad a defnydd tecstilau.

Diolch i aelodau'r gynghrair am eu gwaith caled yn tynnu'r adroddiad hwn at ei gilydd ac wrth gwrs y llu o bobl a chymunedau eraill sy'n gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo datrysiadau ledled Cymru.

## Argymhellion allweddol

Gyda'r argyfwng hinsawdd, yr argyfwng natur ac argyfwng costau byw yn cydgyfarfod i roi straen erchyll ar y blaned, pobl a byd natur, rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu ar draws pob sector gwahanol. Rhaid inni feddwl ein ffordd o gwmpas y materion yn hytrach na chwilio am resymau i beidio â gweithredu.

Amcangyfrifir y bydd y diwydiant ffasiwn byd-eang yn cyrraedd gwerth o $1.7triliwn yn 2022 ac yn gwbl amlwg, fel gwlad fechan, mae cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei gyflawni yng Nghymru pan fyddwn yn sôn am geisio mynd i'r afael â phroblemau ffasiwn gyflym a defnydd anghynaliadwy o decstilau.

Ond mae yna nifer o ymyriadau a fyddai'n helpu lleihau ein cyfran o ddefnydd ffasiwn gyflym o adnoddau byd-eang a helpu teuluoedd dan bwysau sy'n cael trafferth gyda chynnydd mewn costau byw – mae'r atebion i un hefyd yn atebion i'r llall i raddau helaeth.

### Argymhellion allweddol:

- Cyflwyno **rôl Cyfarwyddwr Ffasiwn a Thecstilau Cynaliadwy newydd** o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r camau gweithredu ar draws yr holl sectorau a amlinellir yn yr adroddiad hwn i sicrhau bod gweithredu ar draws pob sector yn gydgysylltiedig ac yn gweithio i bobl, swyddi, cymunedau a'r amgylchedd yng Nghymru.

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol i lunio **Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i Gymru** i fynd i'r afael â'r broblem o ryddhau microffibr plastig a llygredd ar dir ac mewn cyrsiau

Mae'r adrannau a ganlyn yn amlygu llawer o argymhellion y teimlwn eu bod yn gyraeddadwy ac, yn hollbwysig, o fewn y pwerau sydd ar gael inni yng Nghymru.

## Rôl newydd Cyfarwyddwr Ffasiwn a Thecstilau Cynaliadwy

Byddai rôl newydd o fewn Llywodraeth Cymru, sef 'Cyfarwyddwr Ffasiwn a Thecstilau Cynaliadwy', yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar draws yr holl sectorau gwahanol ac ar draws gwahanol adrannau perthnasol y llywodraeth. Gallai'r person hwn yn y rôl hon helpu llunio cynllun gweithredu manwl i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cydgysylltu er budd teuluoedd, busnesau a'r blaned.

## Cynllun Gweithredu Microblastigau i Gymru

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes cryf o weithredu ar blastigau a'r defnydd o adnoddau ond teimlwn fod lle i fwy o weithredu ar ffibrau microblastig. Mae'r mater hwn yn torri ar draws y ffasiwn gynaliadwy o ystyried bod tua 50% o'n dillad o gwmpas wedi'u gwneud o blastig sy'n diosg cannoedd o filoedd o ddarnau plastig bach gyda phob golch. Credwn y byddai Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i Gymru yn dechrau helpu mynd i'r afael â'r mater hwn tra hefyd yn helpu cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i symud i economi wirioneddol gylchol.

## Cyflwyniad ledled y wlad o gynlluniau cyfnewid gwisgoedd ysgol a chitiau chwaraeon

Yn yr adroddiad hwn rydym yn amlygu manteision cynlluniau cyfnewid gwisgoedd ysgol a chitiau chwaraeon, nid yn unig i'r amgylchedd ond hefyd i waledi teuluoedd. Gall prynu gwisgoedd ysgol, citiau chwaraeon ysgol a chitiau chwaraeon tu allan i'r ysgol gostio cannoedd o bunnoedd i deuluoedd bob blwyddyn. Mae llawer o ysgolion eisoes yn trefnu eu cynlluniau cyfnewid eu hunain ond mae'r rhain yn tueddu i ddibynnu ar rieni ac athrawon brwdfrydig ac ymroddedig. Pan fydd y rhieni neu'r athrawon hyn yn gadael neu'n rhedeg allan o gapasiti, mae'r cynlluniau hyn mewn perygl o ddod i ddim. O ystyried bod

'Addysg' yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru yr ysgogiadau i gyflwyno cynllun cyfnewid gwisgoedd ysgol a chitiau chwaraeon ledled y wlad i sicrhau bod pob ysgol yn elwa a bod ailddefnyddio gwisgoedd ysgol yn dod yn rhan arferol o fywyd ysgol.

## Annog newid ymddygiad

Mae newid ymddygiad yn hanfodol os ydym am symud o ddiwylliant ffasiwn gyflym, i fyw ar un blaned. Gwyddom fod yna stigma penodol o hyd ymhlith rhai pobl am wisgo dillad ail law ar hyn o bryd, ond os daw hyn yn arfer mwy normal gan bawb mewn cymdeithas yna caiff y mathau hyn o rwystrau eu chwalu'n raddol.

Credwn fod llwybr clir o newid ymddygiad hirdymor yn bodoli trwy gyflwyno cyfnewid gwisgoedd ysgol ym mhob ysgol yng Nghymru, mentrau citiau chwaraeon yn seiliedig ar fodel llwyddiannus Gadael i Ni Chwarae (gweler tudalen 27), hyd at sut mae'r cyhoedd wedyn yn ymgysylltu â siopau elusen.

Gallai strategaeth gydgysylltiedig glir sy'n cyflwyno mwy o fentrau cyfnewid dillad ar gyfer pobl o bob oed, ynghyd ag apiau cyfnewid dillad ar-lein, greu llwybr lle mae pobl yn tyfu i fyny gan ddefnyddio gwisgoedd ail-law mewn ysgolion, citiau ail-law mewn clybiau chwaraeon, cyfnewid dillad yn eu cymunedau a hefyd sut maent yn dehongli ac yn rhyngweithio â siopau elusen yn eu strydoedd mawr lleol.

# Ffasiwn gyflym – beth yw'r broblem?

## Allyriadau hinsawdd

Mae gan y diwydiant ffasiwn ôl troed carbon enfawr. Amcangyfrifir ei fod yn gyfrifol am tua 10% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd.

Allyrrodd y Deyrnas Unedig, er enghraifft, 26.2 miliwn tunnell o $CO_2$ yn 2016, dim ond o'i ddefnydd o ddillad. I roi hyn mewn persbectif, mae hyn yn gwneud ffasiwn y 4ydd cyfrannwr mwyaf at allyriadau nwyon tŷ gwydr, gyda thrafnidiaeth; bwyd a thai yr unig rai sy'n cael mwy o effaith (WRAP, 2017).

Os bydd y sector ffasiwn yn parhau ar ei gwrs presennol, gallai ei gyfran o gyllideb garbon y byd neidio i 26% erbyn 2050.


Yn rhyfeddol, mae'r diwydiant ffasiwn yn allyrru mwy o garbon na hediadau rhyngwladol a llongau morwrol gyda'i gilydd ac fe'i dosberthir fel yr ail ddiwydiant mwyaf budr yn y byd, nesaf i'r diwydiant olew.

## Llygredd

Mae angen 15,000 litr o ddŵr i dyfu'r cotwm i wneud dim ond un pâr o jîns.

Defnyddir swm enfawr o blaladdwyr a gwrtaith wrth dyfu cotwm, defnyddir llifynnau gwenwynig yn y broses weithgynhyrchu, ac mae dŵr gwastraff gwenwynig heb ei drin o rai ffatrïoedd tecstilau yn cynnwys sylweddau gwenwynig fel plwm, mercwri, ac arsenig ymhlith eraill ac yn cael eu dympio'n uniongyrchol i afonydd. Mewn gwirionedd, y diwydiant ffasiwn yw'r defnyddiwr dŵr ail-fwyaf ledled y byd.

## Microblastigau



Defnyddir tua 70 miliwn casgen o olew y flwyddyn i wneud ffibrau polyester yn ein dillad. Golchi mae rhai dillad, yn y cyfamser, yn rhyddhau tua 500,000 tunnell o ficroffibrau i'n cefnforoedd bob blwyddyn (sy'n cyfateb i tua 50 biliwn o boteli plastig!). Chwith: defnydd cnu microffibr o dan ficrosgop.

## Defnydd

Mae'r Deyrnas Unedig yn enwog am fod yn un o'r defnyddwyr mwyaf o ddillad a thecstilau yn y byd.

Amlyga ffigurau o'r Cynllun Gweithredu Dillad Ewrop bod y Deyrnas Unedig yn prynu mwy o ddillad y person nag unrhyw wlad arall yn Ewrop, gan brynu swm aruthrol o 26.7kg y flwyddyn o ddillad newydd, digon i lenwi cês!

Mae WRAP yn amcangyfrif bod pob cartref yn y Deyrnas Unedig, ar gyfartaledd, yn berchen ar tua gwerth £4,000 o ddillad, bod tua 30% o ddillad mewn cypyrddau dillad heb eu gwisgo ers o leiaf blwyddyn (amcangyfrifir mai tua £30 biliwn yw cost y dillad nas defnyddiwyd yn y cwpwrdd dillad) ac amcangyfrifir bod gwerth £140 miliwn. (tua 350,000 tunnell) o ddillad ail law yn mynd i safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn

## Ffasiwn anfoesegol

Nid yw’r materion moesegol o fewn y diwydiant ffasiwn yn gyfrinach. Maent yn aml wedi categoreiddio dan amodau gwaith gwael, diffyg isafswm cyflog, wythnosau gwaith hir, llafur plant a rheoliadau amgylcheddol gwael a all arwain at weithwyr yn dod i gysylltiad â chemegau a llifynnau niweidiol.

Edrychodd dyddiaduron gweithwyr dillad Fashion Revolution ar brofiad gweithwyr ym Mangladesh, India a Cambodia, lle mae goblygiadau moesegol gwneud y dillad rydyn ni'n eu gwisgo yn echrydus.

Dywedodd gweithwyr Bangladeshaidd eu bod yn gweithio 60 awr yr wythnos ar gyfartaledd yn 2018, sydd dros y gofyniad cyfreithiol o 48 awr. Yn ogystal ag oriau gwaith, mae gweithwyr dillad hefyd yn adrodd nad oedd gan ffatrïoedd offer diogelwch sylfaenol, megis systemau chwistrellu ac allanfeydd brys clir.

Mae'r model byd-eang y mae'r diwydiant ffasiwn ‘cyflym’ yn ei ddilyn ar hyn o bryd yn anghynaliadwy ac ni all barhau fel hyn am byth.

## Beth yw'r sefyllfa yng Nghymru?

Amcangyfrifir bod Cymru yn anfon 540,000 tunnell o decstilau i'w hailddefnyddio bob blwyddyn, gyda 70% o hyn yn cael ei allforio dramor. Er gwaethaf y nod o 'ailddefnyddio' y dillad hyn, yn aml byddant yn mynd i bob rhan o'r byd, naill ai'n cael eu prynu ar y farchnad ail law, neu eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

> Yng Nghymru, anfonir 540,000 tunnell o decstilau i'w hailddefnyddio bob blwyddyn, gyda 70% o hyn yn cael ei allforio dramor.

Mae'r dillad wedi'u hailgylchu hyn yn teithio mewn awyren, ac felly'n ychwanegu hyd yn oed mwy o lygredd i'w cylchoedd bywyd. Dyna pam ei bod mor bwysig dechrau defnyddio atebion lleol i fynd i'r afael â'r argyfwng tecstilau.

Mae'r arferion hyn nid yn unig yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd, ond maent hefyd yn cyfyngu ar y cyfleoedd cyflogaeth yma yn y Deyrnas Unedig. Mae'r broses weithgynhyrchu ar gyfer ffasiwn a thecstilau wedi'i rhoi ar gontract allanol i wledydd sy'n datblygu gan adael ychydig o gyfleoedd yn y sector hwn yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o brifysgolion (gan gynnwys prifysgolion yma yng Nghymru) yn darparu graddedigion ffasiwn a thecstilau medrus, ond ychydig iawn o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar eu cyfer.

Er na allwn newid y system ar ein pen ein hunain yng Nghymru, gallwn geisio mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae gennym gyfrifoldeb amdanynt yng Nghymru. Credwn yn gryf fod yna hefyd nifer o bethau y **gallwn** eu gwneud yng Nghymru ar draws amrywiaeth o sectorau gwahanol heb aros i'r diwydiant ffasiwn na Llywodraeth y Deyrnas Unedig weithredu.

Yn yr adrannau isod rydym wedi ceisio edrych ar rai o'r sectorau gwahanol hyn, beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd ac yna argymell rhai camau ymlaen.

# Y sector addysg

Mae addysg yn arf pwerus wrth geisio annog newid ymddygiad.

## Cwricwlwm i Gymru – cyfleoedd

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi cyfle i wreiddio addysg datblygu cynaliadwy drwy'r pedwar Diben Craidd gan ganiatáu ar gyfer cyd-destun dilys i gyd-lunio cwricwlwm gyda phobl ifanc.

Mae datblygu pobl ifanc sy'n defnyddio'r Pedwar Diben Craidd, sef Moesegol a Gwybodus, Creadigol a Mentrus, Iach a Hyderus ac Uchelgeisiol a Galluog trwy lens hinsawdd ac economi gylchol yn caniatáu ar gyfer datblygu a dealltwriaeth gynyddol o'r meysydd pwnc hyn wrth ddatblygu priodoleddau allweddol.

Mae llawer o ysgolion eisoes yn cofleidio'r cyfleoedd trochi y gall addysg gynaliadwy eu darparu, a cheir tystiolaeth o hyn yn uchafbwyntiau'r arfer dda a welir o fewn ysgolion fel rhan o waith y rhaglen Eco-Sgolion.

Fodd bynnag, ysbeidiol yw'r ddarpariaeth bresennol o addysgu addysg gynaliadwy mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae'n dibynnu ar wybodaeth bersonol, brwdfrydedd ac ymrwymiad athrawon unigol. Fel arall mae popeth yn gyffyrddiad ysgafn.

Mae Helen O'Sullivan o Ffasiwn Gynaliadwy Cymru yn gyn-athrawes. Wrth ymchwilio i'w PhD, nododd fwlch mewn datblygiad proffesiynol yng Nghymru ar gyfer athrawon, nad oedd ganddynt, yn aml, y sgiliau a'r wybodaeth i ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol yn y pwnc (gweler yr astudiaeth achos drosodd).

## Excerpt from Helen O'Sullivan's PHD

During 2019 the Environmental Audit Committee identified the need for education surrounding the issues of fashion, to be embedded not only within post-compulsory education but, specifically within school classrooms.

These are the keynotes of the report:
"Many people currently lack the skills, ability or confidence to create, repair or alter clothing" Page 41
"Social responsibility should be encouraged through sustainable education initiatives which give the public the information and skills to understand the real social and environmental cost of consumption of cheap clothes" Page 41
"Sustainability and waste issues need to be covered at all levels [of education] to raise awareness" Page 42
"We recommend that lessons on designing, creating, mending and repairing clothes be included in schools at Key stage 2 and 3" Page 48
**Environmental Audit Committee (2019) Fixing Fashion, London, House of Commons**

While sustainability is a central theme within the current GCSE in Design & Technology (KS4) and at Further and Higher Education in Wales, there is no consistent requirement to teach this during the Key Stages 1-3. The future is however promising within Wales as the new curriculum launches in September 2022, notably embodying sustainability and ethics across the whole curriculum (Welsh Government, 2020). However, design has been removed entirely from the subject name, being replaced with Science and Technology. This is concerning as this could eradicate the links between design, consumption and environmental impact.
Furthermore, there is currently (April 2022) a significant lack of guidance on what and how to teach, and the responsibility and content largely falls on the individual teacher and their own skills and values.

If teachers are responsible for designing their own curriculums with limited guidance or even training and support, this could lead to inconsistent sustainability content as they could be influenced by their own backgrounds, morals and values, also known as habitus. Habitus, is a set of dispositions that influences one's perception, thought and action influencing how individuals relate to the social world (Bourdieu, 1989). Therefore, teachers' habitus informs their "subjective stock of knowledge" (Edgerton, et, al. 2014 p.201) and ultimately, those with strong environmental ethics could include deeper critical content than others with fewer environmental morals.
Research has also demonstrated a systemic disregard of the creative subjects and the skills gained through design thinking and how pedagogy needs a radical overhaul to ensure education is relevant to the real-world and the environmental changes we face.

Therefore, it is recommended that design and technology teachers at secondary school have specific and strategic guidance and training on how to deliver a diverse and rich curriculum which equips young people with the skills for life and the knowledge of the environmental and social impacts their consumption choices have. Radical action is required to overcome the devastating state of the planet we are leaving for future generations.
It's their education. It's their future.

Helen O'Sullivan April 2022

References:

Bourdieu, P. (1989) 'Social space and symbolic power', Sociological Theory, Vol. 7, No. 1 (Spring, 1989), pp. 14-25.
Edgerton, J. D. and Roberts, L. W. (2014) 'Cultural capital or habitus? Bourdieu and beyond in the explanation of enduring educational inequality', Theory and Research in Education, vol. 12, no. 2, pp. 193–220.
Environmental Audit Committee (2019) Fixing Fashion, London, House of Commons
Welsh Government (2020) Science and technology - Area of learning and experience, Available from: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/science- and-technology/ (Accessed June 2021)

## Ailgylchu gwisgoedd ysgol

Agwedd arall o fewn addysg y credwn y gellir mynd i'r afael â hi yn gadarnhaol yma yng Nghymru yw gwisg ysgol. Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bob un ohonom a gall gwisgoedd ysgol a chitiau chwaraeon ysgol fod yn faich ychwanegol sylweddol ar gyllid teuluol sydd eisoes dan bwysau.

Gydag ymchwil gan Gymdeithas y Plant yn dangos bod rhieni â phlant mewn ysgolion gwladol yn gwario ar gyfartaledd £315 y flwyddyn ar gyfer pob plentyn ysgol gynradd a £337 y flwyddyn ar wisg ysgol ar gyfer pob plentyn ysgol uwchradd, credwn y dylid cyflwyno cyfnewid gwisgoedd ysgol ym mhob ysgol yng Nghymru.

### Astudiaeth achos

#### Ysgol Gynradd Bryn Awel, Rhymni, Caerffili

Trefnodd Pwyllgor Eco Ysgol Gynradd Bryn Awel yn Rhymni siop 'pop up' i ail-garu gwisg ysgol nad oedd ei heisiau!

**Depindeer, Pwyllgor Eco Blwyddyn 6** "Mae'r siop wisg 'pop up' yn syniad hynod gynaliadwy y dylai pawb roi cynnig arni!"
**Mrs Pascoe pennaeth,** "Mae'r syniad menter Eco gwych hwn wedi anfon neges gadarnhaol i'r ysgol a'r gymuned ehangach i 'ail-garu eich pethau!'

Arolygwyd trawstoriad o 54 o ddisgyblion cyn ac ar ôl y camau gweithredu ar 'leihau gwastraff' gan gynnwys 'siop dros dro' y fenter. Roedd effaith fesuradwy ar ymddygiad, agweddau, gwybodaeth a dealltwriaeth:

**(1) Ydy hi'n iawn gwisgo iwnifform sydd wedi'i gwisgo o'r blaen? cyn 87% ie ar ôl 100% ie**
**(2) Ydych chi'n gwybod pam rydyn ni'n ceisio lleihau gwastraff o ddillad? cyn 46% ie ar ôl 81% ie**

Gwellodd y plant eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o o ble mae deunydd ar gyfer dillad yn dod a sut mae dillad yn cael eu gwneud. Mae 100% o blant bellach yn ymwybodol y gall ailddefnyddio gwisg ysgol arbed arian a helpu'r amgylchedd. Cafodd dros 115 o ddarnau o wisg ysgol eu hatal rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

# Astudiaeth achos

## Ysgol Gyfun Cynffig




- Yn 2019 cychwynnodd eco-bwyllgor Ysgol Gyfun Cynffig gynllun ailgylchu gwisg ysgol.
- Mae ganddi broffil uchel yn yr ysgol, a chaiff ei hyrwyddo'n gyson ar borthiant Trydar yr ysgol.
- Mae hefyd yn boblogaidd gyda rhieni ac yn helpu i gael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol ail law.

Mae Comisiynydd Plant Cymru a'i thîm wedi gweithio gyda phlant ysgol ar brosiect o'r enw y Prosiect Gwyrdd-droi i ddatblygu adnoddau ar gyfnewid gwisg ysgol. Buont hefyd yn gweithio gyda disgyblion o Ysgol Maesteg i wneud fideo yn amlinellu sut i drefnu 'Siop Prom Dros Dro'.

Mae'r astudiaeth achos uchod yn amlygu sut y gall gweithredu dan arweiniad disgyblion gael effaith gadarnhaol o fewn amgylchedd yr ysgol a sut mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn darparu'r fframwaith ar gyfer hynny ochr yn ochr â hysbysu a chynnwys teuluoedd a chymunedau mewn gweithredu ystyrlon.

## Argymhellion

Yn dilyn yr enghreifftiau o ymyriadau ar raddfa fach mae'r argymhellion canlynol yn edrych ar sut y gellid graddio'r rhain ar draws y sector addysg yng Nghymru i gefnogi cyfleoedd dilys i fyfyrwyr arddangos ac arwain gwaith ar draws y 4 diben craidd.

### Archwilio

Archwilio gydag ysgolion y rhwystrau i ethos ailddefnyddio ledled yr ysgol. Hwyluso datblygiad atebion i oresgyn y rhwystrau hyn.

### Hwyluso Dillad Ysgol Cynaliadwy

Darparu fframwaith i bob ysgol yng Nghymru ddatblygu menter gymdeithasol drwy Siop Gyfnewid Gwisg Ysgol gan gynnwys dillad chwaraeon.

### Darparu cymorth ariannol

Caniatáu i ysgolion ychwanegu'r dasg o redeg y Siopau Cyfnewid at swydd ddisgrifiadau'r staff mwyaf priodol.

### Lleihau brandio ysgolion

Annog lleiafswm eitemau gyda brand yr ysgol fel y gellir eu dosbarthu trwy gymuned ehangach. Llunio rhestr o gyflenwyr gwisg ysgol gynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd.

## Mynd i’r Afael â’r Bwlch Gwybodaeth

Hwyluso Datblygiad Proffesiynol Parhaus megis mynychu cyrsiau hyfforddi i uwchsgilio athrawon ar bynciau fel economi gylchol a ffasiwn gyflym, gan gynnwys effaith bagiau ailgylchu dillad. Curadu rhestr o ddarparwyr dibynadwy a all gefnogi athrawon i ddwysau eu gwybodaeth am ffasiwn gyflym a’r economi gylchol. Darparu astudiaethau achos o ansawdd uchel sy’n dangos lle mae ffasiwn gyflym ac economi gylchol wedi’u trwytho o fewn y cwricwlwm.

## Cyfathrebu

Cyfathrebu materion ffasiwn gyflym a'r economi gylchol yn uniongyrchol ag ysgolion ac athrawon. Annog ysgolion i ddefnyddio carpiau i gyfoeth/ailgylchu dillad am arian parod trwy addysgu'r effaith.

## Y sector busnes

### O gael cymorth ac anogaeth wedi'i dargedu, gallai Cymru ddod yn enwog ledled y byd am ei sector busnes Ffasiwn Gynaliadwy ffyniannus.

Fel y gwelwch o gyfeiriadur busnes Ffasiwn Gynaliadwy Cymru, mae nifer cynyddol o BBaChau ffasiwn gynaliadwy yn dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt. O ddillad priodas a chotiau glaw i grysau-t a gweuwaith, mae'r busnesau hyn yn gwerthu ystod eang o eitemau ar-lein.

### Y diwydiant ffasiwn gynaliadwy yng Nghymru

Mae BBaChau ffasiwn gynaliadwy yn ymdrechu i leihau eu heffaith amgylcheddol a chymdeithasol. Maen nhw’n ddiwydiant bach ond yn tyfu’n gyflym yng Nghymru.

Er nad oes gan y rhan fwyaf ohonynt adeiladau ffisegol, maent yn gwerthu i gwsmeriaid ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac weithiau hyd yn oed ymhellach i ffwrdd.

Gallai’r busnesau hyn ddod yn drysor yng nghoron economi werdd Cymru, gan helpu i adfywio cymunedau lleol. Er enghraifft, mae holl stoc Elin Manon yn cael ei gynhyrchu o ddeunyddiau cynaliadwy yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.



Dywed Gabriella fod ei busnes *yn falch o fod yn Gymreig ac yn falch o ddod â gweithgynhyrchu yn ôl i'r Deyrnas Unedig. Mae'r diwydiant tecstilau i raddau helaeth o fewn DNA Prydain Fawr gyda threftadaeth gyfoethog mewn gwneud dillad. Mae gennym ymdeimlad enfawr o falchder yn yr hyn y gallwn ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig*.

**Gabriella Diana, Sylfaenydd Onesta**

Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru fachu ar y cyfle a chymryd camau i feithrin y diwydiant

eginol hwn fel y gall godi o ddifrif. Rydym wedi gwneud rhai argymhellion isod (gweler tudalen 19), megis cronfa ar gyfer BBaChau ffasiwn gynaliadwy.

## Pam ei bod mor bwysig cefnogi BBaChau?

Yn ôl adroddiad gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2019, mae busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn cyfrif am 99.4% o'r holl fentrau yn y Deyrnas Unedig, yn gyfrifol am 62.4% o gyflogaeth. Felly, mae busnesau bach ac annibynnol yn bwysig o ran sefydlu economïau lleol a hwyluso mentrau lleol, cymunedol ledled y wlad. Yn benodol, mae busnesau bach yng Nghymru wedi cael eu hystyried fel y rhai mwyaf 'Ymwybodol o'r Gymuned' yn y Deyrnas Unedig, yn ôl adroddiad gan The Co-operative Bank.

**Yn 2019, roedd 83% o berchnogion busnesau Cymru yn gweld eu busnes yn arbennig o bwysig i'w cymuned leol, a 40% yn cydnabod eu bod yn darparu swyddi a chyfoeth i bobl leol**.

Mae'r egni hwn yn cyfateb yn yr un modd i drigolion trefi Cymru, sy'n datgan mai "siopau bach ac annibynnol ffyniannus" yw eu blaenoriaeth uchaf ar gyfer dyfodol canol eu trefi.

Yn ogystal, mae busnesau bach yn tueddu i fod yn fwy cynaliadwy a chael llai o effaith amgylcheddol na chwmnïau mawr.

Mae hyd yn oed busnesau bach a chanolig nad ydynt yn ymgorffori mentrau gwyrdd yn benodol yng nghraidd eu busnes yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn allyrru llai o nwyon tŷ gwydr. Mae'n syndod felly, o bron i 700,000 o fusnesau a sefydlir yn flynyddol, bod 90% yn methu yn eu blwyddyn gyntaf, a dim ond 3% o drigolion Cymru sy'n teimlo bod canol eu tref yn "ffynnu" ar hyn o bryd.

Mae busnesau bach a chanolig yn wynebu heriau niferus nad yw busnesau mwy yn eu hwynebu.

Un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar allu BBaCh i oresgyn heriau yn eu busnes yw diffyg llif arian. Mae BBaChau yn dueddol o brofi cyfnodau talu hwy am wasanaethau

oherwydd eu pŵer cyfyngedig i drafod telerau cytundebol gyda chwmnïau mwy. Yn fwy na hynny, yn ôl adroddiad yn 2020, mae 78% o fusnesau bach a chanolig y Deyrnas Unedig y mae arian yn ddyledus iddynt yn cael eu gorfodi i aros o leiaf fis y tu hwnt i delerau eu cytundeb cyn cael eu talu.

Gall materion llif arian gael effeithiau dinistriol ar fusnes bach. Er enghraifft, gwyddys bod 1 o  bob 7 busnes bach yn methu â thalu eu gweithwyr ar amser, gan arwain at drosiant staff uchel a diffyg cymhelliant ymhlith staff, costau gweinyddol enfawr yn ymwneud â mynd ar drywydd taliadau hwyr ac yn y pen draw ansolfedd.

Mae argyfwng ynni presennol y Deyrnas Unedig sydd wedi codi costau ynni cartrefi o fwy na 50% yn y chwe mis diwethaf, a chynnydd mewn cyfraddau llog o 0.25% i 0.5%, yn ei gwneud yn glir mai dwysau fydd y problemau llif arian hyn.

Mae ymchwil a wnaed gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig a'r Rhwydwaith Cyllid Corfforaethol yn dangos y bydd yr anawsterau ariannol presennol hyn yn golygu y bydd **47% o fusnesau llai yng Nghymru yn rhedeg allan o arian parod yn ystod y flwyddyn nesaf**. Yn ogystal, mae perchnogion busnesau Cymru yn profi lefelau anghymesur o straen a phryder yn ymwneud â llif arian, o gymharu â rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ffactor mawr arall sy'n herio BBaChau yw effaith COVID-19 ar redeg busnes o ddydd i ddydd. Gan fod cyswllt cymdeithasol ag eraill yn gyfyngedig yn ystod pandemig 2020, gorfodwyd bron pob diwydiant i symud gweithrediadau ar-lein.

Heriau sy'n wynebu BBaChau ffasiwn gynaliadwy

- Diffyg llif arian
- Argyfwng ynni presennol y Deyrnas Unedig
- Effeithiau COVID-19
- Cadw i fyny â thechnoleg

Yn yr un modd, mae defnyddwyr hefyd bellach yn fwy tebygol o ddewis dewisiadau digidol eraill.

Er enghraifft, mae dros hanner poblogaeth Cymru bellach yn siopa ar-lein, yn hytrach

nag ymweld â'u strydoedd mawr lleol.

Mae'r newid eang, cyson hwn wedi rhoi pwysau ar bob busnes i sicrhau bod ganddynt dechnoleg effeithlon a'u bod yn gallu goroesi bron yn gyfan gwbl yn ddigidol, rhywbeth llawer llai hygyrch i fusnesau llai.

Er mwyn goroesi, a rhagori, disgwylir i gwmnïau y dyddiau hyn gael gwasanaethau e-bost effeithiol, mynediad at liniaduron neu gyfrifiaduron bwrdd gwaith, ffonau clyfar, galluoedd storio data a rhannu ffeiliau helaeth, meddalwedd fideo-gynadledda, rhaglenni creadigol, a meddalwedd marchnata digidol, gyda'r rhestr yn mynd ymlaen.

Fodd bynnag, mae'r dechnoleg hon yn gostus iawn, ac yn dod â chostau uwchraddio parhaus. Gyda'r problemau llif arian a brofir gan fusnesau bach, mae'n amlwg bod y maes chwarae technoleg ymhell o fod yn deg rhwng cwmnïau mawr a busnesau bach a chanolig.

Dylid adolygu hyn er mwyn cefnogi busnesau bach yn well yn ariannol.

Mae diffyg craffter technegol wedi profi i achosi dryswch ynghylch protocol GDPR ac mae wedi cael effaith sylweddol ar ddiogelwch data busnes. Mewn gwirionedd, mae busnesau bach a chanolig wedi'u cyhuddo o "Fygwth Economi Cymru" oherwydd y nifer helaeth o ymosodiadau seiber a achosir gan ddiogelwch aneffeithlon mewn busnesau bach.

## Gwell mynediad at wybodaeth fedrus, megis technoleg

Gellid cyflawni hyn trwy gynlluniau sy'n cynnig prentis neu weithiwr, yn rhad ac am ddim i'r cwmni, am gyfnod penodol o amser. Mae cynlluniau fel y rhain wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol, fel y cynllun Kickstart a sefydlwyd mewn ymateb i'r argyfwng cyflogaeth a achoswyd gan y pandemig COVID-19 a welodd lawer o bobl ifanc medrus 16-25 oed yn ddi-waith. Roedd cynllun Kickstart yn cwmpasu isafswm cyflog person ifanc am 25 awr yr wythnos am 6 mis, gan roi mynediad i BBaChau at weithlu sydd â risg isel a heb unrhyw fuddsoddiad ariannol, tra hefyd yn lleihau diweithdra. Mae gan lawer o brifysgolion gynlluniau tebyg, megis Cynllun Interniaeth BBaCh Bryste sy'n gosod myfyriwr mewn menter fach neu ganolig am 140 awr ac yn talu am ei gyflog.

Er bod y cynlluniau hyn yn cynnig cyfleoedd gwaith da i fyfyrwyr a graddedigion, dim ond am gyfnod byr o amser y maent yn effeithiol. Yn fwy na hynny, yn aml dim ond isafswm cyflog yr intern y maent yn ei dalu, y gwyddom sy'n gallu achosi i unigolyn medrus deimlo'n ddiwerth ac yn brin o gymhelliant pan fydd graddedigion eraill yn ennill cyflog uwch am rôl debyg. Mewn gwirionedd, disgrifiodd un Kickstarter y cyflog fel “bron yn camfanteisio, yn enwedig i raddedigion”.

Yn ogystal, ar ôl cwblhau'r interniaeth, os nad yw'r BBaCh yn gallu fforddio cadw'r cyflogai ymlaen, cânt eu gadael heb fawr o gymorth a gweithlu llai. Mae hefyd yn ofynnol i'r BBaCh dalu am TWE a all fod yn gostus i frand sy'n ymdrechu i werthu o’r newydd.

Felly, rhaid cynnig mwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig ar gyfer cyflogi gweithwyr sydd â’r wybodaeth fedrus hanfodol ar gyfer llwyddiant busnes, neu gynnig cymorth ar gyfer cyfleoedd dysgu personol. Er enghraifft, yn yr un modd â'r rhwydwaith o fuddsoddwyr a gynigir uchod, gallai hyn gynnwys rhwydwaith o fentoriaid a hyfforddwyr sy'n rhoi cyngor a chymorth i berchnogion busnesau bach. Byddai nifer uwch o raglenni hyfforddi rhad ac am ddim neu hynod fforddiadwy sy’n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar bynciau pwysig fel GDPR a diogelwch hefyd o fudd i sicrhau llwyddiant busnesau bach a chanolig.

Felly, rhaid cynnig mwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig ar gyfer cyflogi gweithwyr sydd â’r wybodaeth fedrus hanfodol ar gyfer llwyddiant busnes, neu gynnig cymorth ar gyfer cyfleoedd dysgu personol. Er enghraifft, yn yr un modd â'r rhwydwaith o fuddsoddwyr a gynigir uchod, gallai hyn gynnwys rhwydwaith o fentoriaid a hyfforddwyr sy'n rhoi cyngor a chymorth i berchnogion busnesau bach. Byddai nifer uwch o raglenni hyfforddi rhad ac am ddim neu hynod fforddiadwy sy’n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ar bynciau pwysig fel GDPR a diogelwch hefyd o fudd i sicrhau llwyddiant busnesau bach a chanolig.

## Gwella mynediad at bersonél busnes profiadol

Er bod cyllid wedi bod ar gael i BBaChau gyflogi interniaid ifanc, er enghraifft rhaglen Kickstart a gynorthwyodd fusnesau i gyflogi pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed, nid yw'r profiad i gwmnïau ac interniaid wedi bod yn fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o BBaChau yn dechrau gyda thîm bach ac nid oes ganddynt dimau AD, Cyfreithiol na Chyllid ffurfiol, sy'n cyfyngu ar y BBaCh rhag tyfu a rheoli staff yn effeithiol, neu weithredu cynllunio a rheoli ariannol priodol, neu sicrhau bod y cwmni wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol gyda pholisïau a gweithdrefnau digonol ar waith. Mae'r tîm BBaChau fel arfer yn ddibrofiad gyda'r swyddogaethau hyn, yn gwneud y gorau y gallant ond yn gorfod gwisgo hetiau lluosog o fewn y cwmni.

Mae hyn yn arwain at y tîm yn gorfod gweithredu mewn swyddogaeth AD, Cyllid neu Gyfreithiol heb gael yr hyfforddiant gyda thebygolrwydd o wneud camgymeriadau. At hynny, wrth ychwanegu interniaid at y cyfan, mae'n anodd i'r tîm presennol gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'r interniaid o ran hyfforddiant a datblygiad ac arweinyddiaeth effeithiol, oherwydd mae'r tîm yn brysur yn gwisgo'r holl hetiau sydd eu hangen i redeg y cwmni. Mae'r interniaid felly yn ymuno â chwmnïau nad ydynt wedi cael eu cefnogi gan staff profiadol ac felly nid oes ganddynt unrhyw un i ddysgu oddi wrthynt.

Er mwyn tyfu a dod yn fusnes sefydledig, mae angen cymorth ar BBaChau i gael mynediad i aelodau profiadol o staff, a gyda'r profiad hwn byddant yn gallu tyfu a chael mwy o adnoddau ar gael i logi graddedigion. Mae'r system bresennol i'r gwrthwyneb ac nid yw wedi profi i fod yn ddull effeithiol y gall busnesau bach a chanolig dyfu na rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl ifanc i ddatblygu sgiliau ar gyfer eu dyfodol.

## Cyfeiriadau

Adroddiad ar gyfran y busnesau bach a chanolig
https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/size-analysis-active-businesses-2019-503.pdf

"Small businesses in Wales are the UK's most 'Community Conscious'
https://businessnewswales.com/small-business-in-wales-are-the-uks-most-community-conscious/

Technoleg a BBaCh
https://www.open.ac.uk/wales/en/news/new-report-reveals-challenges-ahead-smes-wales

Ystadegau ar fusnesau sy'n methu
https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/blogiau/y-prif-heriau-y-bydd-busnesau-bach-yn-wynebu-yn-2020

Iechyd meddwl yng Nghymru 2022
https://www.itv.com/news/wales/2022-02-08/welsh-business-owners-experience-highest-levels-of-mental-health-issues-in-uk

Ystadegau Llif Arian
https://www.smeloans.co.uk/blog/cash-flow-statistics-uk/#:~:text=SMEs%20chasing%20late%20payments%20is,failing%20to%20pay%20on%20time

Argyfwng ynni
https://www.nea.org.uk/energy-crisis/

Ymosodiadau seiber

https://www.thalesgroup.com/en/united-kingdom/news/how-smes-are-threatening-welsh-economy-and-what-you-can-do-about-it

Benthyciadau banc
https://opus-bp.com/why-smes-struggle-to-get-business-loans/

Kickstart reviews

https://www.glassdoor.co.uk/Reviews/KickStart-Jobs-Reviews-E2032275.htm

## Y sector cymunedol

Mae llawer o bobl eisoes yn hyrwyddo ffasiwn gynaliadwy yn eu cymunedau eu hunain. Ceir enghreifftiau gwych o gynlluniau ffasiwn gynaliadwy a arweinir gan y gymuned yng Nghymru, sy’n dod â chymunedau at ei gilydd i hyrwyddo gwerth ailddefnyddio ac addasu dillad a thecstilau.

Mae trwsio neu uwchgylchu dillad, prynu ail law neu gymryd rhan mewn cyfnewid dillad, o wisgoedd ysgol i gitiau chwaraeon, yn ffordd wych o leihau ein hôl troed ffasiwn a chreu cymuned gref a chylchol.

Mae’r astudiaethau achos a ganlyn yn dangos y camau y mae rhai cymunedau’n eu cymryd i ailddefnyddio’r swm llethol o ddillad prin wedi eu gwisgo, sy’n ddinistriol i’r amgylchedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru annog a hyrwyddo’r mentrau arloesol hyn i helpu i newid ymddygiad fel y gallwn leihau’r effaith y mae’r diwydiant ffasiwn gyflym yn ei chael ar ein planed.

### Astudiaeth achos 1: Dillad Dwywaith

Mae Dillad Dwywaith yn siop cyfnewid dillad gymunedol, sydd wedi'i lleoli ym mhentref 'di-blastig' Aber-porth yng Ngheredigion. Mae Aber-porth yn gymuned fach sydd wedi ennill statws y pentref di-blastig 1af yn y byd. Mae'r pentref a'i drigolion yn ymroddedig i achosion amgylcheddol a chynaliadwyedd.

Deilliodd y fenter hon o angen pobl leol i arbed arian ar ddillad plant.

**Nodweddion a buddion**

- Cyfnewid dillad cymunedol yn Aberporth
- Dillad ac esgidiau i blant lleol
- Cyfnewid gwisg ysgol - cyswllt ag ysgol leol
- Man penodol, ar agor 5 diwrnod yr wythnos
- Dewch ag eitemau i mewn, pori'r rheiliau a chasglu beth bynnag sydd ei angen neu eisiau arnoch

Roedd y grŵp y tu ôl i'r fenter am roi cyfle i bobl y pentref ddod at ei gilydd i gyfnewid dillad plant ar ôl iddynt dyfu allan ohonynt fel y gellir eu hail-wisgo a'u hailddefnyddio. Mae llawer o'r dillad hyn cystal â newydd, neu heb eu gwisgo erioed.

Roedd y grŵp eisiau gwneud rhywbeth ar lefel leol i helpu arafu'r cylch ffasiwn gyflym, lleihau defnydd, a chodi ymwybyddiaeth o arferion anfoesegol defnyddwyr.

Roedd llawer o ddiddordeb yn y cyfryngau yn Dillad Dwywaith. O fewn mis cyntaf rhoi'r rheilen i fyny, fe wnaethom roi cyfweliadau i'r BBC, ITV ac S4C a chael sylw mewn llawer o gyhoeddiadau lleol.

Ar y dechrau, dim ond un rheilen ar gyfer dillad plant oedd yn neuadd Aberporth. Ond llwyddodd y rheilen i ddenu sylw'n gyflym drwy dudalen Facebook bwrpasol a byrddau cymunedol – buan iawn y bu Dillad Dwywaith dan ei sang gyda rhoddion!

Tyfodd y fenter yn gyflym ac mae bellach yn gyfnewid dillad ar gyfer oedolion a phlant. Ers 2021 mae wedi cael lle penodol yng Nghanolfan Dyffryn yn Aber-porth, fel rhan o brosiect 'Calon y Gymuned'.

Ar agor unwaith yr wythnos i ddechrau ar ddydd Mawrth, mae Dillad Dwywaith bellach ar agor 5 diwrnod yr wythnos ac yn cael ei redeg gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr. Maent bellach wedi ymuno â'r ysgol leol, gan reoli eu cyfnewid gwisgoedd ysgol o Ganolfan Dyffryn, a hefyd â Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog, sy'n rhoi eu dillad eiddo coll ar ddiwedd pob haf.

Mae Dillad Dwywaith yn agored i bawb ei ddefnyddio. Rydych chi'n dod ag eitemau i mewn, ac yna'n pori'r rheiliau ac yn casglu beth bynnag rydych chi ei eisiau. Nid yw pawb sy'n dod â dillad i mewn yn gadael gyda rhywbeth, ond maent yn dychwelyd yn rheolaidd.

## Astudiaeth achos 2: Repair Cafe Cymru

Enghraifft wych o gynllun a arweinir gan y gymuned yw Repair Cafe Cymru, sy'n cynnal sesiynau atgyweirio ledled y wlad. Mae Repair Cafe Cymru yn hyrwyddo a [chreu diwylliant o atgyweirio ac ailddefnyddio]() gyda rhwydwaith o dros 75 o gaffis trwsio. Mae gan Repair Cafe Cymru dri gwerth craidd:




Llun trwy garedigrwydd Rupal Shah-Clark

### Lleihau Gwastraff

Mae Repair Cafe Cymru yn cymryd eitemau sydd fel arfer yn mynd i gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi a, thrwy ddefnyddio dulliau megis atgyweirio, ailgylchu, ail-bwrpasu neu uwchgylchu, mae'n cadw'r eitemau hynny cyhyd ag y bo modd, er mwyn iddynt fod yn ddefnyddiol o hyd. Mae hyn yn lleihau faint o ddeunyddiau crai ac ynni sydd eu hangen i weithgynhyrchu cynhyrchion newydd, gan dorri allyriadau $CO_2$ o ganlyniad

### Cydlyniad Cymunedol



Llun trwy garedigrwydd Caffi Trwsio Cymru

Mae caffis atgyweirio yn lleoedd cyfeillgar, anffurfiol ac ysbrydoledig sy'n hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a gwydnwch cymunedol. Maent yn darparu mannau diogel a chynhwysol yn y gymuned lle gall pobl o gefndiroedd amrywiol gysylltu â'i gilydd. Mae caffis atgyweirio yn helpu mynd i'r afael â materion cymdeithasol fel tlodi, unigrwydd ac arwahanrwydd, gan atgyweirio eitemau y byddai'n

rhaid eu hadnewyddu fel arfer am gost. Maent yn dod â'r gymuned ynghyd beth bynnag fo hil, rhyw neu gefndir diwylliannol person, gan gefnogi datblygiad cymunedol a gwella iechyd a lles.

## Rhannu Sgiliau a Datblygu

*“Rwyf wedi cael pobl yn dod â'u peiriant gwnïo gyda nhw, does dim byd o'i le arnyn nhw ond maen nhw eisiau i rywun ddangos iddyn nhw sut i edafu'r nodwydd. Does dim atgyweiriad i’w wneud, mewn gwirionedd mae’n ymwneud â chael rhywle y maent yn ymddiried ynddo lle gallant gael cyngor.”*

Dyfyniad gan wirfoddolwr gwnïo o'n grŵp ffocws yn 2020

Mae Repair Cafe Cymru yn cydnabod gwerth pobl sydd â sgiliau ymarferol yn ein cymuned, a’r potensial i’r sgiliau hynny gael eu rhannu. Rydym yn hyrwyddo’r cysyniad o ddiwylliant atgyweirio drwy wahodd y cyhoedd i ddysgu sgil gan ein hatgyweiriwyr gwirfoddol profiadol, neu drwy hyfforddiant mwy ffurfiol. Ein hamcan yw ailsgilio neu uwchsgilio aelodau cymdeithas, gan gynyddu cyflogadwyedd yr unigolyn hwnnw.

Nod Repair Cafe Cymru yw agor caffis atgyweirio lleol ym mhob cornel o Gymru, a fyddai’n gwneud ffasiwn gynaliadwy yn hygyrch ac yn hyfyw i bobl bob dydd. Disgrifiwyd caffis atgyweirio yn y Senedd yn ddiweddar gan y Prif Weinidog fel ‘ffenomenon Cymru’ ac maent yn enghraifft wych o brosiect arloesol, graddadwy sy’n adlewyrchu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo seilwaith cymunedol sy’n helpu dinasyddion i leihau gwastraff.

*'O addasu hen glustogau soffa yn ardal gyffyrddus ar gyfer plant meithrin i ddangos i rywun sut i wneud atgyweiriadau sylfaenol i ddillad i ymestyn eu hoes. Mae'n wych gwybod bod pobl wedi cael cymorth a bod eitemau sydd â bywyd ynddynt o hyd wedi'u hachub rhag cael eu hanfon i safle tirlenwi.’*

Penny, gwirfoddolwr gwnïo yng nghaffi atgyweirio RE:MAKE Casnewydd.

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dargyfeiriodd Repair Cafe Cymru 3005 o eitemau o safleoedd tirlenwi, sy'n cyfateb i 98,864.5kg $CO_2$ mewn arbedion allyriadau a 10,517.5kg mewn arbedion tirlenwi a deunyddiau ailgylchadwy. Yn 2021 trwsiodd caffis atgyweirio yng



Llun trwy garedigrwydd Lynn Gazal

Nghymru dros 400 o eitemau tecstilau. Tecstilau ac eitemau dillad sydd â'r tebygolrwydd uchaf o atgyweiriad llwyddiannus o'r holl gategorïau eitemau a welir mewn caffi atgyweirio, gyda chyfradd llwyddiant o 97.5%.

Mae caffis atgyweirio yn aml yn annog mathau eraill o ailddefnyddio tecstilau trwy weithredu fel canolbwynt cymunedol a chefnogi mentrau amgylcheddol eraill, er enghraifft mae sawl caffi atgyweirio hefyd yn rhedeg siopau cyfnewid dillad.

## Astudiaeth achos 3: Gadael i Ni Chwarae

Mae un [fenter gymdeithasol] wedi bod yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd mewn chwaraeon yng Nghymoedd y Rhondda.

Mae Gadael i Ni Chwarae yn achub citiau ac offer chwaraeon o safleoedd tirlenwi ac yna'n eu gwerthu yn ôl i'r gymuned am brisiau gostyngol iawn. Mae hyn yn helpu chwalu'r rhwystrau ariannol sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon, ac yn gwella iechyd corfforol a lles meddyliol.

Mae'r diwydiant tecstilau yn cael effaith enfawr ar yr amgylchedd; y deunyddiau, y broses trin a lliwio, cludo a phecynnu, i enwi ambell un.

Mae'r allwedd i fynd i'r afael â hyn yn ganolog i leihau'r swm a gynhyrchir, sy'n cael ei hwyluso gan y swm y mae'r cyhoedd yn ei fynnu. Felly mae'n sefyll i reswm, os oes llai o angen ac eisiau am ddillad newydd, yna bydd llai yn cael ei wneud ac yn ei dro, bydd yr effaith ar yr amgylchedd yn cael ei leihau. Ond wrth gwrs mae hyn yn haws dweud.

na gwneud.

Er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl gyfrannu, mae biniau rhoddion ym mhob un o ganolfannau hamdden y cyngor yn Rhondda Cynon Taf (RhCT), ac mae clybiau a sefydliadau ar lawr gwlad yn helpu casglu ac ailddosbarthu cit ac offer, gan sicrhau bod y gymuned gyfan yn cymryd rhan yn y prosiect.

Tri rheswm pam fod Gadael i Ni Chwarae yn llwyddiannus

1. Mae rheolwr prosiect canolog yn trefnu'r casgliadau, y trefniant a dosbarthiad o'r eitemau.
2. Mae cysylltiadau â grwpiau chwaraeon perthnasol, sefydliadau cymunedol ac elusennau yn galluogi dosbarthu'r eitemau i'r mannau lle mae eu hangen.
3. Mae yna le manwerthu i werthu eitemau ohono - gallai hyn weithio'n dda iawn fel rhan o ofod dillad ail-law mwy, gyda dull 'siop adrannol'.

Mae Gadael i Ni Chwarae wedi gweithredu fel siop annibynnol uwchben caffi, fel consesiwn o fewn Too Good To Waste (siop elusen ailddefnyddio dodrefn) ac yn y dyfodol agos bydd yn symud i ganolfan gynaliadwyedd newydd 'Y Siop Fach Sero', tra hefyd yn gwerthu ar-lein.

Mae'r ffordd y caiff yr eitemau hyn eu gwerthu yn dibynnu ar yr ardal leol a'r hyn sy'n gyfystyr ag ardal â nifer uchel o ymwelwyr a hygyrchedd da. Yr ystyriaeth allweddol yw cost – mae gofod manwerthu yn brin, ac wrth gwrs, pwrpas y prosiect hwn yw helpu pobl a'r blaned, nid gwneud arian!

Mae'n bwysig cadw eitemau a roddwyd yn lleol i leihau costau cludiant a hyrwyddo effaith gylchol medi a gwobrwyo.

Cynllun cyfnewid chwaraeon cenedlaethol - buddion

- Galluogi mwy o blant i gymryd rhan mewn chwaraeon
- Gwella iechyd meddwl a chorfforol
- Arbed arian
- Lleihau gwastraff

Er mwyn lleihau eu hôl troed carbon, mae Gadael i Ni Chwarae yn defnyddio car trydan i wneud casgliadau a dosbarthu'r eitemau. Mae'r car trydan yn bwynt siarad pendant, gan arwain at sgyrsiau gyda chwsmeriaid am gynaliadwyedd a sut i fyw mewn ffordd fwy ecogyfeillgar. Iddynt hwy, mae defnyddio dull cynaliadwy o drafnidiaeth yn atgyfnerthu pam eu bod yn gwneud y newidiadau hyn ac yn dangos sut y mae'n bosibl rhedeg car trydan yng nghymoedd y de – rhywbeth y mae llawer o bobl yn credu sy'n amhosibl, safbwynt a rennir ledled Cymru.

Dywed Gadael i Ni Chwarae fod yr hyn y maent yn ei wneud yn gymharol syml ac y gellid ei gyflwyno ledled Cymru – efallai hyd yn oed ehangu y tu hwnt i ddillad chwaraeon i wisgoedd

ysgol, ac eitemau 'arbenigol' eraill. Byddai cynllun cyfnewid chwaraeon cenedlaethol yn atal 1000oedd o dunelli o ddillad rhag mynd i safleoedd tirlenwi, yn helpu teuluoedd i arbed arian a byw'n fwy cynaliadwy, ac yn ei gwneud yn haws i bobl gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

## Astudiaeth achos 4: Y Rhaglen Respect



Yn ystod blwyddyn academaidd 2013-14, cynhaliodd Rhwydwaith 14-19 Abertawe (rhan o Ddinas a Sir Abertawe) gyfres o gyrsiau achrededig OCN Agored ar gyfer pobl ifanc sydd wedi dadrithio gan addysg brif ffrwd ac sydd mewn perygl o ddod yn NEET (‘nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant’).

Buont yn gweithio mewn partneriaeth â grŵp o bobl greadigol a sefydliadau lleol i gynnal gwahanol gyrsiau o 10 wythnos y tymor. Helen o Ffasiwn gynaliadwy Cymru oedd yr arweinydd ar gyfer y siop elusen, ffasiwn wedi uwchgylchu a chyrsiau cynllunio digwyddiadau. Roedd pob un o’r cyrsiau 10 wythnos yn cynnwys y canlynol:

- Bu’r bobl ifanc ar leoliadau gwaith mewn siop elusen (nad oeddent erioed wedi camu i mewn iddynt o’r blaen) yn Nhreforys gan ennill sgiliau manwerthu, sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid tra hefyd yn dysgu sut i ddidoli trwy roddion tecstilau i’r siop eu gwerthu.
- Fe wnaethant nodi dillad a thecstilau a fyddai ond yn cael eu defnyddio ar gyfer carpiau oherwydd difrod neu ormodedd o stoc.
- Casglodd y bobl ifanc ddeunyddiau a dillad o'r carpiau i'w defnyddio yn eu gwaith dylunio eu hunain.
- Buont yn gweithio gyda Helen yn dysgu am fathau o ffibr a saernïaeth ffabrig, sgiliau dylunio a sgiliau gwnïo ymarferol.
- Yna cymhwysodd y bobl ifanc y sgiliau hyn i greu dillad ffasiwn yn seiliedig ar eu dyluniadau eu hunain dros nifer o wythnosau.
- Yna buont yn gweithio gyda Helen i drefnu digwyddiad i arddangos eu gwaith. Roedd hyn yn cynnwys sioe ffasiwn ac arddangosfa am bwysigrwydd uwchgylchu tecstilau a

lleihau gwastraff tecstilau yn eu hysgol.

- Cawsant hefyd gymhwyster mewn gwallt a harddwch gydag athro proffesiynol arall. Aseswyd y sgiliau hyn yn ystod digwyddiad y sioe ffasiwn.

Enillodd pob myfyriwr 4 cymhwyster (Manwerthu; Uwchgylchu Tecstilau; Cynllunio Digwyddiadau; Harddwch) o'r cyrsiau, sef yr unig gymwysterau a enillwyd ganddynt o'r ysgol. Roedd yn rhoi nid yn unig hunan-barch i'r bobl ifanc ond hefyd yn gyfle i ennill parch gan eu cymuned ysgol a'u teulu. Aeth llawer ohonynt ymlaen i astudio tecstilau ac roedd ganddynt hefyd newid radical mewn meddylfryd o ran dillad yn gyffredinol ond yn benodol y stigma o ddillad ail law a siopau elusen. Yn anffodus, er gwaethaf y llwyddiant aruthrol, diddymwyd Rhwydwaith 14-19 Abertawe oherwydd diffyg cyllid ac ni chafodd y rhaglen ei hailadrodd byth.

## Astudiaeth achos 5: School Uniformcycle Caerffili

Yn 2019, sefydlodd ychydig o rieni o Gaerffili sy'n ymwybodol o broblemau amgylcheddol grŵp Facebook i alluogi pobl leol i brynu, gwerthu neu roi gwisg ysgol o'u dewis.


Erbyn mis Awst 2022, roedd gan y grŵp 840 o aelodau. Mae amrywiaeth eang o ddillad yn cael eu prynu a'u gwerthu, gan gynnwys eitemau brand sy'n aml yn ddrud iawn i'w prynu o'r newydd.



Llun trwy garedigrwydd Michelle Owen

Mae grŵp Facebook Gwisg Ysgol Caerffili yn cael ei ddefnyddio'n eang ac yn hysbys yn y gymuned. Mae'n cael ei reoli'n dda, gyda sawl gweinyddwr a rheolau wedi'u

cyfleu'n glir (gweler trosodd).




## Argymhellion

### Cyflwyno cynllun cyfnewid citiau chwaraeon ledled Cymru

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Gadael i Ni Chwarae a sefydliadau perthnasol eraill a chyrff sector cyhoeddus i roi strategaeth ar waith i gyflwyno'r cynllun cit chwaraeon hwn i bob rhan o Gymru.

### Creu porth gwe

Gallai porth gwe canolog neu 'siop un stop' i Gymru ddarparu gwybodaeth ar sut i redeg cyfnewidiadau dillad cymunedol a chynlluniau tebyg eraill. Gallai hefyd gynnal astudiaethau achos, canllawiau arfer gorau a chysylltiadau â ffrydiau ariannu posibl.

### Rhyddhau lle ar gyfer mentrau cymunedol

Adeiladau sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol, neu sy'n wag yn cael eu cynnig i grwpiau cymunedol yn rhad ac am ddim ar gyfer digwyddiadau cymunedol fel digwyddiadau cyfnewid dillad.

## Darparu hyfforddiant

Addysg gymunedol – hyfforddiant i grwpiau cymunedol.

## Siopau elusen

Mae siopau elusen yn dominyddu strydoedd mawr Cymru yn gynyddol. Maent yn gyfle perffaith i arddangos dewisiadau ffasiwn gynaliadwy, gan helpu meithrin newid ymddygiad o fewn cymunedau.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn amcangyfrif bod 550 o siopau elusen yng Nghymru, pob un yn codi swm enfawr o arian at yr achosion y maent yn eu cefnogi.



Llun trwy garedigrwydd Prudence Earl ar Unsplash

Mae gan siopau elusen lu o fanteision, sy'n pontio ffiniau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Maent yn hyrwyddo'r syniad o economi gylchol, gan roi mynediad i'w cymunedau lleol i ffordd gynaliadwy o brynu a rhoi dillad. Ochr yn ochr â hyn, mae yna fudd cymdeithasol enfawr i siopau elusen. Mae CGGC yn amcangyfrif bod dros 11,000 o bobl yn gwirfoddoli mewn siopau elusen, a gyda hynny daw cyfleoedd i adeiladu setiau sgiliau ac ennill profiad wrth wirfoddoli.

Mae Eco Age, gan ddyfynnu WRAP UK, yn esbonio sut y gall ailddefnyddio dillad, ac ehangu eu hoes o ddim ond 9 mis, leihau olion traed carbon, dŵr a gwastraff dillad y Deyrnas Unedig 20-30%. Mae'r effaith hon o siopa am ddillad ail law yn aruthrol o ran mynd i'r afael ag ôl troed carbon tecstilau, ac mae'n rhywbeth sy'n cyfrif am gyfran fawr o'r hyn y mae siopau elusen yn ei ddarparu.

Canfu astudiaeth gan Osterley a Williams (2019, tt.32) ar fanteision siopau elusen fod gan siopau elusen ran bwysig i'w chwarae i gadw'r stryd fawr yn fyw. Wrth i fanwerthwyr eraill ddioddef cystadleuaeth ar-lein ac wrth i fwy a mwy o siopau ddod yn wag, gall siopau elusen gynnal nifer yr ymwelwyr i ardaloedd manwerthu, a hefyd llenwi safleoedd gwag.

Gan edrych ar y buddion y mae siopau elusen yn eu darparu, maent yn gyfle perffaith i arddangos dewisiadau ffasiwn gynaliadwy, ac yn araf hyrwyddo newid ymddygiad o fewn cymunedau.

Trwy ddefnyddio siopau elusen, gall y cyhoedd gael ffordd hawdd o ailgylchu eu dillad, tra hefyd yn cael siop fywiog a ffyniannus ar y stryd fawr leol.

Bydd y cynnydd mewn costau byw hefyd yn debygol o olygu y bydd mwy o bobl yn gwneud mwy o ddefnydd o siopau elusen.

Gyda pheth cynllunio a chydweithio dychmygus, credwn y gallai siopau elusen hyd yn oed gydweithio'n achlysurol ar bethau fel hyrwyddo a marchnata, sioeau ffasiwn gynaliadwy gyda'r nos, dyddiau neu wythnosau thema ac ati.

Nid yw'n amhosibl dychmygu dyfodol lle mae siopau elusen yn chwarae rôl fwy annatod fyth ar y stryd fawr, cynnig gwahanol fathau o brofiad siopa, gwerthu gwahanol fathau o gynnyrch tra'n parhau i chwarae eu rhan mewn economïau cylchol lleol.

## Siopau elusen ac Addysg

Gall siopau elusen hefyd chwarae rhan hanfodol o fewn addysg. Ceir tystiolaeth o hyn yn y gweithdai CharioCity, a gynhaliwyd drwy gydol 2021, a'r adroddiad dilynol (i'w gyhoeddi'n fuan). Mae CharioCity yn rhan o Ddiwrnod Tecstilau Cylchol y Byd, dan arweiniad yr Athro Becky Earley o Ganolfan Dylunio Cylchol yn UAL, ac mae'n ymchwilio i rôl y cymunedau hollbwysig hyn o ran ail-lunio addysg dylunio ar bob lefel: o Gyfnod

Allweddol 1 i PhD. Roedd Helen O'Sullivan yn gynghorydd i'r adroddiadau a mynychodd yr holl weithdai, a ddatgelodd hefyd sut y gall siopau elusen, o'u defnyddio'n llawn, gynnig adnodd deunydd fforddiadwy i ysgolion a cholegau tra hefyd yn helpu ail-frandio delwedd siopau elusen wedi'r pandemig.

Er enghraifft, mae Helen wedi cydweithio â siopau elusen lleol sy'n darparu deunyddiau ar gyfer ei phrosiectau ysgol a fyddai fel arall wedi'u hanfon i garpiau, neu hyd yn oed yn waeth wedi'u cludo i wledydd eraill gan arwain at fynyddoedd o wastraff tecstil tebyg i'r hyn a ddarganfuwyd yn anialwch Atacama yn Chile yn 2021. Mae ei gwersi'n seiliedig ar ailddefnyddio deunyddiau a hefyd ail-frandio'r siopau elusen i apelio at bobl ifanc. Mae gwaith Helen wedi'i gyflwyno mewn gweithdai CharioCity, trwy gyfrwng fideo a grëwyd gan ei disgyblion Blwyddyn 7 a hefyd yn y Symposia a gweithdai Diwylliannau Ail-law JOMEC yn ystod 2021 a 2022. Mae hi hefyd wedi gweithio gydag amrywiol ysgolion a siopau elusen ar draws Abertawe i ddarparu cyrsiau achrededig mewn sgiliau manwerthu a dylunio ers 2010 gan gynnwys y rhaglen RESPECT yn 2013.

Mae siopau elusen yn adnodd hanfodol ac yn ganolbwynt hanfodol mewn llawer o gymunedau, ond erys stigma o aflendid na ellir ond ei oresgyn trwy ymwybyddiaeth ac addysg gyda phobl ifanc.

## Argymhellion

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r sector siopau elusen yng Nghymru, CharioCity a sefydliadau eraill sydd â diddordeb i roi cynllun ar waith a fyddai nid yn unig yn helpu cefnogi'r sector siopau elusen yng Nghymru ond hefyd yn ymchwilio i'r rôl sydd ganddynt i'w chwarae o ran adfywio canol trefi

## Microffibrau plastig

Mae ein dealltwriaeth o beryglon ficroffibrau plastig yn datblygu'n gyson. Mae microffibrau yn fath o ficroblastig – gronynnau o blastig sy'n llai na 5mm o ran maint (yn deneuach na blewyn dynol) ac yn dod o amrywiaeth o wahanol ffynonellau.

Yn rhyfeddol, amcangyfrifir bod microffibrau plastig sy'n cael eu golchi i ffwrdd o ddillad synthetig yn cyfrif am tua 35% yr holl lygredd plastig yn ein moroedd a'n cefnforoedd.

Mae mwyafrif y microffibrau hyn yn cael eu rhyddhau yr ychydig weithiau cyntaf y mae dilledyn yn cael ei olchi.

Nid yw peiriannau golchi a gweithfeydd trin dŵr gwastraff wedi'u cynllunio i ddal y ffibrau plastig bach iawn y mae ein dillad yn eu gollwng wrth olchi. Mae llawer o'r ffibrau hyn yn sleifio i'n dyfrffyrdd ac yn y pen draw i'r cefnforoedd. Ac mae llawer yn cael eu dal mewn llaid yn y gweithfeydd trin – sydd wedyn yn cael ei chwistrellu dros ein pridd fel gwrtaith.

Mae ffynonellau microblastigau eraill yn cynnwys:

- darnau o eitemau plastig mwy fel poteli a bagiau sy'n torri i lawr yn y môr
- darnau sy'n gwisgo i ffwrdd o deiars cerbydau wrth yrru
- microbelenni mewn colur
- paent ar adeiladau a marcio ffyrdd.

Mae'r microblastigion yn hollbresennol yn yr amgylchedd, o'r cefnforoedd dwfn i ben mynyddoedd ac mae tystiolaeth eisoes yn bodoli o'u presenoldeb yn y gadwyn fwyd a'r effeithiau andwyol ar anifeiliaid.

Mae darnau microblastigion hefyd bellach wedi'u canfod yn y gwaed mewn 8 o bob 10 o bobl gydag effeithiau iechyd anhysbys hyd yma.

### Astudiaeth achos
### Dod o hyd i ficroblastigau

Mae'r Young Darwinian mewn cydweithrediad â CALIN a Phrifysgol Caerdydd wedi datblygu dull diogel o ganfod microblastigau yn yr amgylchedd. Defnyddiwyd hwn yn llwyddiannus mewn prosiectau peilot mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae'r dull hefyd wedi'i arddangos fel gweithgaredd allgymorth yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2022 lle bu'n boblogaidd iawn gyda chyfranogwyr o bob oed. Y bwriad nawr yw sicrhau bod hwn ar gael i bob ysgol yng Nghymru.

**Ysgol Pen Rhos ac Ysgol Gynradd Pentip, Llanelli**

"Cynhaliwyd yr arbrawf microblastig yn yr ysgol gyda thywod traeth lleol. Cafodd y plant 5-6 oed eu swyno gan Dr. Iwan a'i sbectol arbennig a chymerwyd rhan lawn yn y negeseuon pwysig a ddaeth â'r arbrawf hwn adref am yr hyn sydd yn y môr a'r tywod lle maent yn chwarae. Yn ein harolygiad diweddar ym mis Gorffennaf, nodwyd cymaint roedd y plant yn cofio ac yn gwybod am ficroblastigau yn eu hamgylchedd. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhagorol ac wedi'i gynnal yn y ddwy ysgol yr wyf yn eu harwain. Mae'r arbrawf mor dda fel ei fod ar gynllun tymor hir y cwricwlwm yn barhaol gyda neges hollbwysig i bob un ohonom yn ganolog iddo." Dr Joe Cudd Pennaeth Gweithredol

## Ffynonellau gwybodaeth

- Mae Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched (WI) wedi bod yn llais blaenllaw ar y mater hwn yn y Deyrnas Unedig gyda'u hymgyrch 'Diwedd Cawl Plastig' ragorol.

- Yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd adolygiad o'r wybodaeth a oedd ar gael a

chynhyrchodd adroddiad o'r enw ‘Adroddiad ar bolisïau a chynigion sy’n ymwneud â llygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu’. Clywsant dystiolaeth gan nifer o arbenigwyr a lluniwyd cyfres o argymhellion. Mae gwyddoniaeth a’n dealltwriaeth o achosion a maint y broblem o ficroffibrau plastig wedi symud ymlaen, hyd yn oed o fewn cyfnod o 3 blynedd, felly hoffem weld Llywodraeth Cymru yn diweddaru’r adroddiad hwn gan adlewyrchu’r wyddoniaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae'r ‘Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Ficroblastigau yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o effaith microblastigau ar yr amgylchedd. Mae'r grŵp yn gweithio'n drawsbleidiol gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb i drafod atebion polisi posibl i broblem microblastigau a microffibrau.’

Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop: *‘Mae ffasiwn gyflym yn cyfrif am lefelau arbennig o uchel o ollyngiadau o'r fath oherwydd mae dillad ffasiwn gyflym yn cyfrif am gyfran uchel o olchiadau cyntaf, gan eu bod yn cael eu defnyddio am gyfnod byr yn unig ac yn tueddu i dreulio'n gyflym oherwydd eu hansawdd isel.’*

## Argymhellion gan grŵp seneddol y Deyrnas Unedig

Er bod eu hargymhellion wedi'u hanelu at lywodraeth y Deyrnas Unedig, serch hynny mae'n werth eu nodi yma gan eu bod yn cynnwys (ymysg eraill).

- Pwysleisio rôl addysg ac ymwybyddiaeth o ficroblastigau.

- Ymgyrchoedd cyfathrebu ymwybyddiaeth ymddygiad cyhoeddus wedi'u targedu ar effeithiau amgylcheddol rhyddhau microffibr plastig o'r cylch golchi dillad a thrin dŵr gwastraff.

- Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio gydag arweinwyr cwricwlwm, y byd academaidd, hwyluswyr gwyddoniaeth dinesig ac addysgwyr ar lawr gwlad i ddarparu ‘pecynnau gweithredu microblastig’ wedi'u hymchwilio a gyda

thystiolaeth ar gyfer athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol i'w defnyddio mewn ysgolion a grwpiau ieuenctid. Mae hyn er mwyn i bobl ifanc fod yn ymwybodol o'r broblem a'r camau y gallant eu cymryd i liniaru eu heffaith eu hunain.

- Penodi ‘Gweinidog Llygredd Plastig’ (MOPP) dynodedig: Gweinidog trawsadrannol newydd gyda chylch gwaith clir ar gyfer rheoli ac atal llygredd plastig, yn ogystal â goruchwylio polisïau amgylcheddol sy'n ymwneud â phlastigau a'u heffeithiau llygru ar y tir ac amgylcheddau dyfrol.

- Cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig ar gyfer tecstilau o 2023 ymlaen.

- Cyflwyno deddfwriaeth a safonau sy'n ei gwneud yn ofynnol i hidlwyr microffibr gael eu gosod ym mhob peiriant golchi domestig a masnachol newydd o 2025

Yn amlwg, nid yw rhai ohonynt yn berthnasol i Gymru ond mae eraill yn berthnasol, a byddem yn argymell eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Microblastigau newydd i Gymru.

## Ein hargymhellion

- Llywodraeth Cymru i adolygu’r wyddoniaeth gyfredol a ffurfio grŵp tasglu sy’n cynnwys sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol yng Nghymru i lunio Cynllun Gweithredu Microblastigau ar gyfer lleihau microffibrau plastig yng Nghymru.

- Cefnogi arloesedd drwy annog ein prifysgolion, entrepreneuriaid a’r sector preifat i gydweithio i ddatblygu deunyddiau newydd. Mae Cymru mewn sefyllfa dda ym maes Biotechnoleg i arwain hyn.

- Addysgu plant ysgol a'r cyhoedd am y sefyllfa a'r camau y gellir eu cymryd ar unwaith, gan gynnwys ffrwyno’r ffrwydrad 'ffasiwn gyflym’.

## Defnyddiau amgen

Fel y crybwyllwyd mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, mae amrywiaeth o broblemau amgylcheddol a chymdeithasol yn gysylltiedig â chynhyrchu a defnyddio llawer o fathau o decstilau yn amrywio o ddefnydd tir a dŵr, llygredd ac allyriadau hinsawdd o ffermio cotwm i ryddhau microffibrau plastig o ddillad synthetig.

Er bod llawer o’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar atebion megis defnyddio llai, ailddefnyddio, uwchgylchu a chyfnewid, mae’n amlwg hefyd fod angen nodi ffabrigau addas eraill, llai niweidiol i wneud ein tecstilau a’n dillad ohonynt.

Yr un amlwg i ni yng Nghymru yw gwlân. Mae hwn yn ddiwydiant sydd â hanes hir yng Nghymru ond sydd bellach angen cefnogaeth. Bydd gwlân yn ganolog i ddiwydiant ffasiwn a thecstilau cynaliadwy hirdymor yng Nghymru, bydd yn cefnogi ffermwyr defaid ac economïau gwledig a dylai ddarparu diwydiant twf i Gymru.

Credwn hefyd ei bod yn werth ystyried ac archwilio tecstilau naturiol eraill, o safbwynt cynaliadwyedd ond hefyd o safbwynt yr economi wledig.

Un o'r cynhyrchion hyn yw cywarch. Credwn fod Cywarch yn gnwd sy’n haeddu ymchwiliad ac ymchwil a datblygiad pellach i benderfynu pa gyfleoedd sydd ar gael i ni yng Nghymru a sut i oresgyn y rhwystrau presennol.

Mae Cywarch Diwydiannol yn gynnyrch gwerthfawr a fydd yn helpu pontio i arferion amaethyddol mwy cynaliadwy gyda buddion ecolegol ac economaidd cadarnhaol.

## Gwlân

Mae gwlân defaid, ers canrifoedd, yn asgwrn cefn i economi wledig Cymru. Yn ystod y 100 mlynedd diwethaf mae nifer y melinau gwlân yng Nghymru wedi lleihau o 217 o felinau balch i'r lefel isel nawr o ddim ond 8.

Mae llawer o ddefnyddiau i wlân, o'r dillad amlwg a thecstilau eraill i inswleiddio adeiladau.

Mae Covid-19 wedi cael effaith drychinebus ar y diwydiant gwlân yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol gyda phrisiau tunnell o wlân yn gostwng yn aruthrol. Mae hyn yn amlwg wedi cael effaith enfawr ar ffermwyr defaid yng Nghymru gyda llawer yn cael trafferth talu eu costau eu hunain hyd yn oed. Mae hyn yn ei dro hefyd wedi effeithio ar yr economi wledig yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Mae sefydliadau fel Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) wedi bod yn arwain yr alwad i Lywodraeth Cymru gynyddu'r gefnogaeth i ffermwyr defaid drwy bennu marchnadoedd newydd ar gyfer cynhyrchion gwlân yng Nghymru.

Gyda thua 5 miliwn o ddefaid magu yng Nghymru a gyda gwlân yn decstil cynaliadwy (sy'n gyflym adnewyddadwy, yn fioddiraddadwy, yn ailgylchadwy, ac yn gallu cael ei gynhyrchu'n organig) mae'n ymddangos bod cyfle enfawr yma i ddatblygu strategaeth hirdymor blaenllaw sy'n cefnogi ffermwyr defaid ac economi wledig Cymru tra'n cynhyrchu tecstilau cynaliadwy o ansawdd uchel.

### Argymhellion

Bod Llywodraeth Cymru yn cynnull tasglu o undebau amaeth, y diwydiant gwlân a busnesau ffasiwn gynaliadwy Cymreig i lunio cynllun hirdymor i gefnogi'r diwydiant gwlân yng Nghymru a hefyd i roi'r marchnadoedd gwlân yng Nghymru ar waith.

## Cywarch

Mae ffermio cywarch yn y Deyrnas Unedig yn mynd yn ôl ganrifoedd, wedi ei ddefnyddio'n draddodiadol i wneud hwyliau llongau yn ogystal â dillad a rhaffau yn ogystal â chael ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel porthiant anifeiliaid a chynhyrchu papur. Yn wir, gwnaeth Harri VIII orfodi pob ffermwr i dyfu cywarch i'w ddefnyddio ar gyfer hwyliau a rhaffau ar gyfer y llynges.

**Manteision amgylcheddol cywarchlen**

- Gellir tyfu cywarch heb blaladdwyr na chwynladdwyr. Ar hyn o bryd mae cotwm anorganig yn defnyddio mwy na 10% o blaladdwyr y byd.
- Mae cywarch mewn gwirionedd yn amsugno metelau gwenwynig.
- Mae cywarch yn gwella priddoedd trwy ddychwelyd 60-70% o'r maetholion y mae'n eu cymryd yn ôl i'r pridd.
- Mae cywarch yn atafaelu carbon ar gyfradd uwch na choed. Am bob tunnell o gywarch a dyfir, bydd yn tynnu 1.63 tunnell o garbon deuocsid o'r atmosffer. Gellir ei gynaeafu hefyd o fewn 4 mis.
- Mae angen llawer llai o ddŵr ar gywarch i dyfu, tua 50% yn llai na chotwm. Wrth ychwanegu canlyniadau prosesu, mae angen mwy na 4 gwaith cymaint o ddŵr ar gotwm na chywarch.

Erbyn yr ugeinfed ganrif roedd cywarch yn cael ei dyfu ledled y byd a daeth yn rhatach ei fewnforio o dramor. Ym 1928 daeth yn anghyfreithlon i dyfu cywarch yn y Deyrnas Unedig, oherwydd ei gysylltiad â chanabis seicoweithredol.

Mae planhigion cywarch a mariwana yn perthyn i'r un teulu ond mewn gwirionedd maent yn wahanol iawn. Mae planhigion cywarch yn cynnwys ffracsiwn bach o faint o THC (y cyfansoddyn seicoweithredol sy'n gyfrifol am y penfeddwdod) o'i gymharu â phlanhigion marijuana. Mae THC i'w gael mewn cywarch mewn dosau mor fach fel nad yw'n rhoi ‘penfeddwdod’ i bobl. Newidiodd llywodraeth y Deyrnas Unedig y gyfraith yn y 1990au i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y 2 blanhigyn yma yr un fath.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ffermwyr y Deyrnas Unedig feddu ar drwydded i dyfu cywarch sy'n costio tua £600 a rhaid iddynt gytuno i wiriadau rheolaidd, sy'n aml yn golygu ffioedd ychwanegol. Rhaid i ffermwyr adnewyddu eu trwydded bob tair blynedd hefyd.

Mae cywarch bellach yn cael ei ddisgrifio fel 'peth mawr nesaf' amaethyddiaeth.

## Crynodeb

- Mae Cywarch Diwydiannol yn gynnyrch gwerthfawr a fydd yn helpu pontio i arferion amaethyddol mwy cynaliadwy gyda buddion ecolegol ac economaidd cadarnhaol.
- Yn anffodus nid yw cynhyrchu yn y Deyrnas Unedig yn bosibl oherwydd cyfyngiadau hen ffasiwn, cyfeiliornus a direswm.
- Mae angen i hyn newid a gallai Cymru gymryd yr awenau.

## Y planhigyn a'r dryswch

Mae cywarch diwydiannol yn cael ei dyfu o hadau'r planhigyn Cannabis sativa, wedi'i drin i gynhyrchu planhigion â choesynnau hir, yn dda iawn ar gyfer ffabrig a llawer o gymwysiadau eraill. Maent yn hawdd i'w tyfu ac yn cael eu plannu yn agos iawn at ei gilydd gyda 3-400,000 yr erw. NID YW'r coesyn o'r planhigion hyn yn cynnwys y cyfansoddyn seicoweithredol, THC, mae'r blodau'n cynnwys bron dim ar lai na 0.2% ac nid ydynt yn cael eu cynaeafu.

## Manteision cywarch ar gyfer ffabrigau

- Mae cywarch yn tyfu'n dda iawn yn y Deyrnas Unedig, yn wahanol i gotwm.
- Gall cywarch gynhyrchu bron i ddwbl y cynnyrch ffibr fesul erw na chotwm.
- Mae cywarch yn hawdd ei liwio.
- Mae cywarch yn gallu gwrthsefyll llwydni
- Mae cywarch hyd at 3 gwaith yn gryfach na chotwm ac mae ei ffibrau'n diraddio llawer llai wrth olchi. Amcangyfrifir y bydd crys-t cywarch yn para 3 gwaith cyhyd ag un cotwm.
- Mae'r ffibr o gywarch yn debyg i liain ond gellir ei gymysgu â ffibrau eraill i wella meddalwch.
- Gellir defnyddio cywarch i wneud deunyddiau adeiladu fel Hempcrete, biodanwyddau a llawer mwy.
- Gellir gwneud olew cywarch o'r hadau - mae hwn yn ddewis iachach yn lle olew olewydd.
- Mae olew CBD hefyd yn gynnyrch hyfyw, a

Mae planhigion Canabis Sativa a dyfir (yn anghyfreithlon) i gynaeafu THC, yn wahanol iawn ac yn cael eu tyfu'n benodol at y diben hwn. Mae THC yn cael ei dynnu o'r blodau ac yn cael eu plannu 6 troedfedd ar wahân gyda thua 1,600 yr erw, i annog y blodau, sef ffynhonnell y THC. Mae'r planhigion yn edrych, yn gweithredu ac yn cael eu trin yn wahanol iawn ac yn llafurddwys ond yn anffodus yn cario'r un enw gwyddonol.

## Y Gyfraith a Thrwyddedu

Ers 1993 bu'n gyfreithlon tyfu cywarch yn y Deyrnas Unedig ond o dan drwydded gyfyngedig iawn. Yn y Deyrnas Unedig, mae cywarch yn cael ei ddosbarthu fel cyffur rheoli o dan y “Trwyddedu Cyffuriau a Drylliau Tanio”. Rhaid i ffermwyr wneud cais i'r Swyddfa Gartref am drwydded i'w dyfu.

Mae'r drwydded yn costio ychydig yn llai na £600 ac yn cynnwys llawer o arferion cyfyngol. Mae'n para 3 blynedd.

Gall methu â chydymffurfio arwain at ddinistrio'r cnwd. Mae angen trwydded ar gyfer pob safle.

Ar hyn o bryd dim ond hadau a gymeradwywyd gan yr UE y gellir eu plannu. Hyd nes y

bydd y deddfau'n cael eu newid yn ffurfiol, dim ond y coesynnau a'r hadau o blanhigion cywarch y mae'n bosibl cynaeafu yn y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i'r dail, sy'n cael eu defnyddio i echdynnu CBD, gael eu dinistrio cyn gynted ag y cânt eu gwahanu oddi wrth y planhigyn oherwydd bod y broses amaethu yn dal yn anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Ond gellir ei brynu mewn siopau ac ar y rhyngrwyd.

## Gweithgaredd presennol

- Mae tua 20 o dyfwyr trwyddedig yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys adrannau ymchwil prifysgolion.
- Mae pum ffermwr yn cydweithio â thîm o Brifysgol Cranfield a Chynghrair Cywarch Prydain fel rhan o raglen Ffermwyr Arloesol gan y Soil Association.
- Roedd y gwaith prosesu cywarch cyntaf i fod i gael ei adeiladu yn Nwyrain Canolbarth Lloegr cyn Covid.
- Mae Tsieina yn cynhyrchu tua 70 y cant o allbwn y byd o'r tecstil hwn. Dim ond cyfran fach o'r cywarch a gynhyrchir yn Tsieina sy'n cael ei wneud yn ffabrig; gwneir y mwyafrif helaeth yn danwydd, papur, neu gynhyrchion diwydiannol eraill.
- Ffrainc yw cynhyrchydd mwyaf nesaf y cnwd hwn. At ei gilydd, mae dros 30 o wledydd ledled y byd yn cynhyrchu cywarch diwydiannol, ac mae cynhyrchiant y cnwd hwn yn yr Unol Daleithiau hefyd ar gynnydd oherwydd newid yn y gyfraith.

Dychmygwch ddyfodol lle mae cywarch yn cael ei dyfu'n fasnachol yng Nghymru, gan alluogi ffermwyr i arallgyfeirio eu gweithrediadau ymhellach gyda chnwd sydd â nifer o fanteision amgylcheddol ac y gellid defnyddio'r cynhyrchion hynny yng Nghymru i gynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion o ddillad cynaliadwy a thecstilau a ffabrigau eraill i olewau a deunyddiau adeiladu a thrwy hynny gefnogi ystod o fusnesau ledled Cymru.

## Argymhellion

Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp tasglu o gyrff a sefydliadau sydd â diddordeb i ymchwilio i ba fanteision y byddai cynyddu cynhyrchiant cywarch yng Nghymru yn eu rhoi i ffermwyr, economïau gwledig, cadwyni cyflenwi, swyddi a'r amgylchedd. Mae'n

amlwg bod rhwystrau mawr i'w goresgyn cyn y gellir tyfu cywarch ar raddfa fasnachol yng Nghymru ond mae'r manteision amgylcheddol yn glir. Mae yna hefyd farchnad gynyddol amlwg ar gyfer cynhyrchion cywarch a fyddai o fudd i'r rhai sy'n symud am y tro cyntaf ar hyn yn y Deyrnas Unedig.

## Crynodeb o argymhellion

| Addysg | Busnes | Cymuned | Microffibrau plastig | Defnyddiau amgen |
|---|---|---|---|---|
| **Archwilio**<br><br>Archwilio gydag ysgolion y rhwystrau i ethos ailddefnyddio ledled yr ysgol.<br><br>Hwyluso datblygiad atebion i oresgyn y rhwystrau hyn<br><br>**Hwyluso dillad ysgol cynaliadwy**<br><br>Darparu fframwaith i bob ysgol ddatblygu menter gymdeithasol drwy Siop Gyfnewid Gwisg Ysgol.<br><br>Darparu cymorth ariannol i alluogi ysgolion ychwanegu'r dasg o redeg y Siopau Cyfnewid at swydd ddisgrifiadau'r staff mwyaf priodol.<br><br>Annog isafswm eitemau gyda brand yr ysgol.<br><br>Llunio rhestr o gyflenwyr gwisg ysgol gynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd. | **Cyflwyno grantiau ffasiwn gynaliadwy**<br><br>Dylai cwmnïau sy'n gallu dangos y gallant ac y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar eu cymuned leol gael cynnig grantiau'r llywodraeth i gynorthwyo twf.<br><br>**Hwyluso rhwydwaith o fuddsoddwyr ffasiwn gynaliadwy**<br><br>Hwyluso rhwydwaith o fuddsoddwyr sydd â diddordeb mewn ariannu busnesau bach ffasiwn gynaliadwy drwy grantiau neu gyfranddaliadau, ac a allai fod â diddordeb mewn cynnig mentoriaethau.<br><br>Yn fwy na hynny, yn aml dim ond isafswm cyflog yr intern y maent yn ei dalu, y gwyddom sy'n gallu achosi i unigolyn medrus deimlo'n ddiwerth ac yn brin o gymhelliant pan fydd graddedigion eraill yn ennill cyflog uwch am rôl debyg. Mae hefyd yn ofynnol i'r BBaCh dalu am TWE a all fod yn gostus i frand sy'n ymdrechu i | **Cyflwyno cynllun cyfnewid chwaraeon cenedlaethol**<br><br>Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gadael i Ni Chwarae a sefydliadau perthnasol eraill a chyrff sector cyhoeddus i roi strategaeth ar waith i gyflwyno'r cynllun cit chwaraeon hwn i bob rhan o Gymru.<br><br>**Annog digwyddiadau cyfnewid mewn adeiladau na ddefnyddir**<br><br>Hoffem weld adeiladau sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus lleol sy'n cael eu tanddefnyddio, nad ydynt yn cael eu defnyddio neu'n wag ar hyn o bryd, yn cael eu cynnig i grwpiau cymunedol yn rhad ac am ddim ar gyfer digwyddiadau cymunedol megis digwyddiadau cyfnewid dillad. | **Ffurfio tasglu**<br><br>Ffurfio grŵp tasglu sy'n cynnwys sefydliadau ac arbenigwyr perthnasol yng Nghymru i lunio Cynllun Gweithredu Microblastigau ar gyfer lleihau microffibrau plastig yng Nghymru.<br><br>Addysgu plant ysgol a'r cyhoedd am y sefyllfa, gan gynnwys ffrwyno’r ffrwydrad 'ffasiwn gyflym’.<br><br>Parhau i leihau plastigion untro ac annog mentrau i leihau'r hyn sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. | **Gwlân**<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnull tasglu o undebau amaeth, y diwydiant gwlân a busnesau ffasiwn gynaliadwy Cymreig i lunio cynllun hirdymor i gefnogi’r diwydiant gwlân yng Nghymru a hefyd i roi’r marchnadoedd gwlân yng Nghymru ar waith<br><br>**Cywarch**<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru i sefydlu grŵp tasglu o gyrff a |

| Addysg | Busnes | Cymuned | Microffibrau plastig | Defnyddiau amgen |
|---|---|---|---|---|
| **Mynd i’r Afael â’r Bwlch Gwybodaeth**<br><br>Hwyluso Datblygiad Proffesiynol Parhaus megis mynychu cyrsiau hyfforddi i uwchsgilio athrawon ar bynciau fel economi gylchol a ffasiwn gyflym, gan gynnwys effaith bagiau ailgylchu dillad.<br><br>Curadu rhestr o ddarparwyr dibynadwy a all gefnogi athrawon i ddwysau eu gwybodaeth am ffasiwn gyflym a’r economi gylchol.<br><br>Darparu astudiaethau achos o ansawdd uchel o ble mae ffasiwn gyflym ac economi gylchol wedi’u trwytho o fewn y cwricwlwm.<br><br>**Gwell cyfathrebu**<br><br>Cyfathrebu materion ffasiwn gyflym a'r economi gylchol yn uniongyrchol ag ysgolion ac athrawon.<br><br>Annog ysgolion i ddefnyddio carpiau i gyfoeth/ailgylchu dillad am arian parod trwy addysgu'r effaith. | werthu o’r newydd.<br><br>**Rhwydwaith o fentoriaid a hyfforddwyr sy’n darparu cyngor a chefnogaeth**<br><br>Rhaid cynnig mwy o gymorth i fusnesau bach a chanolig ar gyfer cyflogi gweithwyr sydd â’r wybodaeth fedrus hanfodol ar gyfer llwyddiant busnes, neu gynnig cymorth ar gyfer cyfleoedd dysgu personol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rhwydwaith o fentoriaid a hyfforddwyr sy'n rhoi cyngor a chymorth i berchnogion busnesau bach.<br><br>**Cyflwyno gwell strwythurau ariannu**<br><br>**Gwella mynediad i staff profiadol** | **Mwy o gefnogaeth i siopau elusen**<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o’r sector siopau elusen yng Nghymru, CharioCity a sefydliadau eraill sydd â diddordeb i roi cynllun ar waith a fyddai nid yn unig yn helpu cefnogi’r sector siopau elusen yng Nghymru ond hefyd yn ymchwilio i’r rôl sydd ganddynt i’w chwarae o ran adfywio canol trefi. | | sefydliadau sydd â diddordeb i ymchwilio i ba fanteision y byddai cynyddu cynhyrchiant cywarch yng Nghymru yn eu rhoi i ffermwyr, economïau gwledig, cadwyni cyflenwi, swyddi a’r amgylchedd.<br><br>Mae'n amlwg bod rhwystrau mawr i'w goresgyn cyn y gellir tyfu cywarch ar raddfa fasnachol yng Nghymru ond mae'r manteision amgylcheddol yn glir. Mae yna hefyd farchnad gynyddol amlwg ar gyfer cynhyrchion cywarch a fyddai o fudd i'r rhai sy'n symud am y tro cyntaf ar hyn yn y Deyrnas Unedig. |